

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-2016

## CRYNODEB GWEITHREDOL

**ADRODDIAD BLYNYDDOL GwE 2015-2016**  
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**SAFONAU**

**Cryfderau mewn perfformiad**

- Mae safonau yn gwella'n dda yn y sector cynradd;
- Mae perfformiad Sir Ddinbych yn well, neu'n unol â'r disgwyl, yn y prif ddangosydd ym mhob cyfnod allweddol;
- Mae perfformiad Gwynedd yn dda yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4;
- Mae perfformiad yn y DPC yn CA3 yn parhau i fod yr uchaf o'r pedwar consortiwm.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion PYD sy'n cyflawni'r DPC yn CA3;
- Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 [L2+] yn sylweddol uwch eleni [+2.0% neu +3.0% heb 'Addysg heblaw yn yr ysgol' arall] o gymharu â'r cynnydd a welwyd yn 2015 [0.4%];
- Mae'r ganran sy'n cyflawni A\*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn dda dros y cyfnod treigl;
- Mae proffil arolygiadau Estyn ar gyfer rhanbarth GwE yn cymharu'n ffafriol â'r proffil cenedlaethol;
- Mae gan GwE adnabyddiaeth dda o'i hysgolion, gan gategoreiddio ysgolion yn briodol;
- Cynnydd yng nghanran yr ysgol yn y categori gwyrdd ym mhob Awdurdod Lleol; a
- Mae canran yr ysgolion a roddir yn y categori melyngoch a choch wedi lleihau ym mhedwar o'r chwe Awdurdod Lleol.

**Agweddau i'w datblygu**

- Gwella perfformiad L2+, Mathemateg a Saesneg, yn CA4.
- Cyflwyno rhaglen dargedu gydlynol yn oddeutu hanner ein hysgolion uwchradd i wella safonau ac arweinyddiaeth;
- Cysylltu mentrau cenedlaethol yn agos efo anghenion ysgolion a grwpiau o ysgolion er mwyn datblygu system ysgol sy'n hunan wella yn gyflymach;
- gwella perfformiad awdurdod lleol Wrecsam yn CA3 ac ysgolion unigol ar draws y rhanbarth;
- gwella perfformiad ysgolion yn CA2 yng Nghonwy a Wrecsam;
- gwella perfformiad awdurdodau lleol a'r rhanbarth o ran cyfraneddau disgwylidig yn y Profion Darllen Cenedlaethol;
- gwella perfformiad awdurdodau lleol a'r rhanbarth o ran cyfraneddau disgwylidig yn y Profion Rhifedd Cenedlaethol;
- datblygu ymateb gyson i resymu rhifiadol a'r ddealltwriaeth o broses resymu systematig i ddatrys problemau mewn ystod o gyd-destunau;
- gwella perfformiad ôl-16 ar y graddau uwch;
- codi safonau'r Gymraeg yn erbyn y continwwm iaith;
- gofalu bod pob ysgol yn gweithredu strategaethau effeithiol i wella perfformiad dysgwyr PYD;
- sicrhau darpariaeth, cefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ble'n briodol, i bob dysgwr bregus;
- cryfhau a datblygu cysylltiadau rhwng GwE a'r awdurdod lleol i wella safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ADY;
- sicrhau bod gwella cyflawniad disgyblion MAT yn flaenoriaeth ym mhob ysgol.

## DARPARIAETH

### Pa mor dda yr ydym yn darparu cefnogaeth, monitro, herio a chefnogi ymyrraeth yn ein hysgolion?

#### Cryfderau

- model gweithredu wedi'i esblygu a'i gryfhau yn dilyn ymgynghori hefo rhanddeiliaid – hyn wedi arwain at welliannau amlwg yn neilliannau y sector cynradd ac mewn rhai ysgolion uwchradd;
- anghenion cefnogaeth pob ysgol Felyngoch a Choch wedi'u diffinio'n glir i randdeiliaid mewn cynlluniau cymorth;
- gwell cysondeb yn ansawdd y gynhaliadaeth ac arweiniad i ysgolion ar draws y 3 hwb;
- ysgolion yn cael mynediad i raglenni arweinyddol ar lefel rhanbarthol, lefel hwb ac i weithredu sydd yn benodol i anghenion yr ysgol ei hun;
- yn y sector cynradd, gwelliannau amlwg yn ansawdd arweinyddiaeth - cynnydd yn y ganran o ysgolion yn y categorïau Gwyrdd a Melyn o 80.7% yn 2015-16 i 84.8% yn 2016-17 a chynnydd yn y % o ysgolion sydd wedi derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses [codi o 85.3% yn 2015-16 i 89.0% yn 2016-17];
- yn y cynradd, proffil arolygiadau Estyn yn gadarnhaol ac yn amlygu gwelliannau cadarn gyda 75.0% o'r ysgolion arolygwyd yn 2015-16 [48 ysgol] yn derbyn dyfarniad da neu well ar gyfer ansawdd arweinyddiaeth ac o'r arolygiadau sydd eisoes wedi'u cynnal yn 2016-17 [20 ysgol], y ffigwr wedi codi ymhellach i 80.0%;
- gweithdrefnau monitro a herio wedi'u cysoni ar draws y 3 hwb a disgwyliadau gweithredu wedi'u diffinio a'u hamlygu'n glir i randdeiliaid;
- Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth ar gyfer pob hwb yn dod yn fwy effeithiol wrth sicrhau ansawdd gwaith pob un o'r Ymgynghorwyr Her oddi fewn i'r timau;
- gweithredu wedi'i rymuso gan gyfraniadau Penaethiaid llwyddiannus ymunodd ar secondiad;
- cysoni a grymuso trefniadau ar gyfer herio a choladu targedau ysgolion unigol a'r cynnydd tuag atynt
- cydweithio mwy effeithiol gyda swyddogion yr awdurdodau i dargedu gweithredu pellach mewn ysgolion ble roedd pryder am ddiffyg neu arafwch cynnydd;
- sefydlu'r fforwm rhanbarthol, *Rhwydwaith Gwella Ysgolion*, dan gadeiryddiaeth un o'r Cyfarwyddwyr Addysg, wedi arwain at gysoni arferion a disgwyliadau gweithredu ar draws y chwe awdurdod.

#### Meysydd i'w datblygu

- grymuso a chysoni gweithredu gydag ysgolion uwchradd trwy esblygu ymhellach y model cefnogi a sicrhau gwell defnydd o bennaethiaid ar secondiad i gyfoethogi gwaith y tîm;
- cynyddu'r % o ysgolion uwchradd sydd yn y categori cefnogaeth Gwyrdd/Melyn ac sy'n derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses;
- gwella deilliannau arolygiadau yn y sector uwchradd ac yn enwedig yn hwb Fflint / Wreccsam;
- sicrhau cynlluniau busnes L3 sy'n ymateb yn finocach i anghenion datblygu awdurdodau ac ysgolion unigol ac sydd wedi'u trafod a'u cytuno gyda rhanddeiliaid;
- sicrhau mynediad mwy dilyffethair i ystod ehangach o ddata trwy'r Uned Ddata a defnydd effeithiol ohono gan YH unigol;
- sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad i ystod gyfoethocach o raglenni datblygol ar lefel ranbarthol a hwb benodol;
- sicrhau bod ysgolion yn gweithredu ar yr arweiniad rhanbarthol parthed yr hyn sy'n ddisgwyliedig o ran 'ffit-orau' i asesiadau athrawon;
- targedu arweiniad i arweinwyr mewn meysydd strategol allweddol [hunan arfarnu, cynllunio gwelliant, herio asesiadau ayyb];
- gweithio gyda'r awdurdodau a chymheiriaid i gynnal ymweliadau *Adolygu a Chefnogaeth* er mwyn miniogi cynnwys cynlluniau cymorth.

## Pa mor dda yr ydym yn cefnogi darparu cwricwlwm pwrpasol, addysgu ac asesu da a chodi safonau mewn agweddau sy'n flaenoriaeth?

### Cryfderau

- mae mynediad at raglenni hyfforddi a datblygu wedi gwella'n sylweddol ac yn arbennig felly yn y Cyfnod Sylfaen. Darparwyd, am y tro cyntaf, rhaglen gefnogaeth ranbarthol i dargedu cynllunio, addysgu, asesu ac arweinyddiaeth yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn gwella darpariaeth a chodi safonau cyflawniad.
- Mae'r Tim o Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd wedi darparu ystod eang o raglenni datblygu i sicrhau cynllunio a darpariaeth o safon, yn y sector cynradd ac uwchradd. Bu nifer uchel o aelodau yn y rhaglenni datblygu a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth;
- Drwy roi cefnogaeth i ysgolion uwchradd weithredu'r manylebau TGAU diwygiedig, a'r Fagloriaeth ddiwygiedig, yn llwyddiannus, mae hyn wedi rhoi mynediad at gefnogaeth bynciol arbenigol mewn mathemateg, Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a gwyddoniaeth drwy'r Ymgynghorwyr Her pynciol a'r rhwydweithiau lleol;
- Mae'r prosesau a roddwyd ar waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi arwain at fwy o gysondeb mewn asesu ar draws y rhanbarth, ac mae safon cymedroli clwstwr wedi gwella drwy uwch sgilio arweinwyr asesu a hyfforddi ymarferwyr;
- Cyhoeddi datganiad rhanbarthol ar asesiad athro i sicrhau eglurder a chysondeb ymysg ysgolion ac AauLl wrth gymhwyso asesiadau diwedd cyfnod allweddol.

### Meysydd i'w datblygu

- Sicrhau bod cynllunio a datblygu'r cwricwlwm yn gydnaws yn CA3 a'r manylebau newydd TGAU yn CA4; i
- Sicrhau bod pob ysgol wedi'i pharatoi'n briodol i ymateb i anghenion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd, a'r cwricwlwm newydd yn y man;
- Parhau gyda hyfforddiant cynllunio, asesu ac ymyrraeth ar y cyd ar gyfer athrawon diwedd cyfnod allweddol i sicrhau cysondeb gweithredu wrth lefelu a safoni gwaith ar draws y rhanbarth;
- Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio datganiad rhanbarthol GwE fel rhan o brosesau asesu ysgolion ac yn ystod cymedroli clwstwr.

## Sut ydym yn cefnogi grwpiau o ddysgwyr gan gynnwys rhai bregus?

### Cryfderau

- Adnabod yr arferion gorau yn well a datblygu rhaglen ymchwil gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor ar yr ymyraethau mwyaf effeithiol mewn Llythrennedd, Rhifedd a Lles sydd yn cael yr effaith mwyaf mewn ysgolion;
- Rhaglen hyfforddiant unigryw i ddatblygu Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol yn y sector ysgolion arbennig;
- Darparwyd hyfforddiant i arweinwyr ac athrawon ar strategaethau effeithiol i gefnogi dysgwyr bregus, fel hyfforddiant i hybu ymddygiad cadarnhaol, hyfforddiant ar iechyd meddwl, ymlyniad, galar a thrawma;
- Sicrhawyd fod gan bob ysgol 'bencampwr' i ddysgwyr bregus, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mhob ALI i'r unigolion hyn;
- Neilltuwyd adran o'r wefan ar gyfer astudiaethau achos llwyddiannus [lleol a chenedlaethol] arweiniad ac ymchwil ar yr hyn sy'n gweithio orau i godi cyflawniad dysgwyr bregus;
- Sefydlwyd rhwydwaith rhanbarthol o Ymgynghorwyr Her, swyddogion yr ALL, cynrychiolydd o Brifysgol Bangor a swyddogion LIC drwy wahoddiad, i osod cyfeiriad strategol i'r gwaith.

### Meysydd i'w datblygu

- Parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod eu cynlluniau gwella yn cynnwys targedau heriol ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr difreintiedig, gyda chynlluniau datblygiad proffesiynol cydlynol yn sail i hyn.

- Rhoi mwy o bwyslais ar hwyluso cynllunio ar y cyd, ar draws cyfnodau, fel bod dysgwyr bregus yn cael cefnogaeth dda ar adegau trosglwyddo allweddol;
- Annog ysgolion i gynnwys y gymuned a theuluoedd yn eu CDY ble'n briodol;
- Parhau i gorffori strategaethau i leihau'r bwlch rhwng disgyblion PYD a dim PYD ar draws pob cyfnod allweddol;
- Rhannu arferion effeithiol ymhellach ar draws y rhanbarth.

### Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu?

#### Cryfderau

- Rhaglenni datblygu ar waith i ymarferwyr yn amrywio o Gymorthyddion Addysgu Lefel Uwch (CALU) i Benaethiaid profiadol a rhaglenni datblygu cefnogol pellach ar waith ar lefel hwb. Hyd yma, mae dros 1000 o ymarferwyr ar draws Cymru wedi bod yn rhan o raglenni datblygu GwE.

#### Meysydd i'w datblygu

- Parhau i sicrhau cyswllt efo'r blaenoriaethau cenedlaethol, a bod y rhain yn cael eu corffori, i gefnogi datblygiadau lleol;
- Mae angen ystyried ymhellach y posibilrwydd o achredu'r rhaglenni datblygu.

### Pa mor dda yr ydym yn hyrwyddo blaengareddau'r Llywodraeth?

#### Cryfderau

- Gweithia GwE yn dda i hybu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru gan wneud cynnydd da yn erbyn yr agenda Dyfodol Llwyddiannus;
- Mae GwE mewn sefyllfa dda i barhau i hybu a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol;
- Mae nifer yr ysgolion Arloesi ar draws GwE sy'n gweithio i ddatblygu cwricwlwm newydd wedi cynyddu'n sylweddol o 12 ysgol i 25 ysgol, a bellach mae dull amserol ar gyfer gweithio gyda phob ysgol gan ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu effeithiol sydd wedi'u cynllunio'n dda;
- Mae gwaith yr ysgolion Arloesi Digidol hefyd wedi dod yn ei flaen yn dda iawn, gyda chefnogaeth 4 Arweinydd Digidol a benodwyd drwy'r rhwydwaith TGCh rhanbarthol;
- Mae GwE yn parhau i weithio'n agos gyda LIC ar ddatblygiadau mewn arweinyddiaeth, yn enwedig y datblygiadau a'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr Academi Arweinyddiaeth Addysg;
- Mae pob ysgol wedi cael mynediad at gefnogaeth a ddarparwyd gan Ysgolion Arweiniol yn y pynciau craidd a'r Ymarferwyr Arweiniol yn y pynciau anghraidd. Bu'r arfarniadau o'r gweithdai a'r Cynadleddau yn gyson gadarnhaol ar draws yr ystod o bynciau;
- Mae'r rhaglen gefnogaeth TGAU wedi arwain at fwy o gydweithio a chynhyrchu a rhannu adnoddau yn ystod yr 18 mis diwethaf;
- Mae pob ysgol wedi cael mynediad at y gefnogaeth a ddarparwyd gan Ymarferwyr Arweiniol y Fagloriaeth. Bu arfarniadau o'r gweithdai yn gyson gadarnhaol.
- Mae rhaglen gefnogaeth y Fagloriaeth wedi arwain at fwy o hyder wrth weithredu'r elfennau sy'n cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau.

#### Meysydd i'w datblygu

- Cefnogaeth barhaus i'r holl ysgolion Arloesi weithio ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd;
- Parhau i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu i gynnwys pob ysgol;
- Datblygu ymhellach partneriaethau ehangach i sicrhau y caiff bawb gyfle i fwydo i anghenion y cwricwlwm newydd e.e. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o ran sgiliau, a phartneriaid yr Awdurdod Lleol o ran lles;
- Cynnwys gwaith Arloesi rheolaidd ar lefel ALL/Hwb a gofalu bod Ymgynghorwyr Her yn cael y cyfle i gael gwybod y diweddaraf am ddatblygiadau cenedlaethol fel y gallant barhau i gefnogi ysgolion yn effeithiol.
- Parhau i gydweithio â'r Academi Arweinyddiaeth newydd;

- Parhau i gefnogi ysgolion weithredu'r TGAU newydd.
- Cynnwys cyfarfodydd rheolaidd o'r fforwm pynciol ar lefel ALL/Hwb i sicrhau bod cydweithio, cydweithredu a rhannu adnoddau yn parhau;
- sicrhau cefnogaeth barhaus i elfennau'r Dystysgrif Her Sgiliau;
- sicrhau cefnogaeth barhaus i elfennau e-bortffolio a chymhwysedd digidol y Dystysgrif Her Sgiliau;
- cynnwys cyfarfodydd rheolaidd o fforwm y Fagloriaeth ar lefel ALL/Hwb a sicrhau parhad mewn cydweithio, cydweithredu a rhannu adnoddau;
- sicrhau trosglwyddiad llyfn o Ymgynghorwyr Her 'Her Ysgolion Cymru' (HYC) i GwE wrth i'r rhaglen HYC ddod i ben;
- sicrhau her a chefnogaeth briodol i ysgolion wedi'r rhaglen HYC.

## ARWEINYDDIAETH

### Cryfderau

- dros y tair blynedd diwethaf, mae perthynas GwE efo ysgolion wedi gwella wrth i'r sefydliad daro cydbwysedd gwell rhwng yr angen i gefnogi a herio ysgolion;
- mae cefnogaeth a her yn y cynradd yn gyffredinol dda ac mae mynediad at raglenni hyfforddi a datblygu wedi gwella a dod yn gliriach;
- datblygwyd gwybodaeth dda am ysgolion ar lefel arweinyddol dros amser;
- cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor brotocol rhanbarthol ar gyfer penodi staff ysgol yn ddiweddar. Rhydd hyn fwy o rôl GwE mewn partneriaeth â'r ALL i sicrhau y gwneir penodiadau effeithiol;
- ar y cyfan, mae perthynas waith dda bellach rhwng pob hwb a'r ALL unigol;
- mae'r Model Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth a dirprwy yn gyffredinol effeithiol ac yn rhoi cydbwysedd da i bob hwb;
- bellach, mae llif yr wybodaeth rhwng GwE a'r Awdurdodau yn well ac, yn yr achosion gorau, mae dealltwriaeth glir o rôl y naill a'r llall wrth yrru'r agenda gwella;
- mae'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol yn dechrau dod â chysondeb rhanbarthol i arferion pob hwb unigol drwy adnabod yr arferion gorau a rhannu hyn ar draws y rhanbarth;
- mae cynlluniau ALL unigol, y cyfeiriwyd atynt o'r blaen fel Atodiadau, wedi gwella ac yn gyffredinol dda;
- mae'r swyddogaeth archwilio wedi aeddfedu ar draws y rhanbarth. Mae gan aelodau archwilio lleol ddealltwriaeth well o bwrpas GwE a'r hyn mae'n ceisio'i gyflawni;
- yn yr achosion gorau, mae aelodau pwyllgor archwilio wedi bod allan mewn ysgolion yn holi barn penaethiaid am ba mor dda mae GwE yn cefnogi a herio ysgolion. Daethant â'u canfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor a chynhaliwyd cyfarfod efo arweinydd hwb GwE a swyddogion yr ALL i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu;
- Mae'r proses cynllunio busnes wedi'i gwella'n fawr yn ddiweddar, ac yn fwy cadarn o lawer bellach. Mae gan uwch arweinwyr o fewn y consortiwm a'r Awdurdodau Lleol fwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth ar y broses. Mae'r strwythur atebolrwydd yn gliriach ac mae'r prosesau monitro yn gadarnach;
- Mae'r berthynas waith rhwng GwE a Llywodraeth Cymru wedi'i chryfhau ymhellach dros y flwyddyn fel rhan o lawer o'r gwaith ar Ddyfodol Llwyddiannus;
- Mae'r 4 consortiwm rhanbarthol wedi cydweithio i gyflwyno cynnig ar y cyd i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda datblygiadau'r cwricwlwm, yn arbennig y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd ble mae arweinwyr rhanbarthol yn gweithio'n effeithiol gyda arweinwyr Llywodraeth Cymru i gryfhau'r broses;
- Mae cyfleoedd Dysgu Proffesiynol hefyd wedi datblygu ymhellach y berthynas waith gyda Llywodraeth Cymru

### Meysydd i'w datblygu

- Newid y model gweithredu presennol i sicrhau bod pwyslais clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yn CA4;
- ALL unigol i adolygu eu cynhwysedd presennol a'u gallu i weithio mewn partneriaeth gyda GwE i sicrhau bod perfformiad yn gwella;

- Adolygu strwythurau'r Llywodraeth ochr yn ochr â'r adolygiad nesaf o'r Model Cenedlaethol;
- Gweithredu model rheoli perfformiad unigol a gwasanaeth a fydd yn helpu Estyn rhoi sylw i'r argymhellion;
- Datblygu model arweinyddiaeth ddsranedig a fydd yn rhoi mwy o rolau arwain i staff a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau eu hunain;
- Datblygu eglurder rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel eu bod yn ategu'i gilydd, a ddim yn cystadlu â'i gilydd;
- Datblygu cysondeb ar draws y tri hwb i sicrhau cydraddoldeb darpariaeth ar draws y rhanbarth;
- Adolygu'r cynllun busnes fel bod blaenoriaethau GwE yn hysbys i bawb;
- Crisialu rôl staff, yn enwedig uwch staff, fel bod blaenoriaethau yn cael eu cyflawni;
- Adolygu model cymorth busnes gweithredol GwE;
- Parhau i ddatblygu perthynas waith efo partneriaid i alinio blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## BLAENORIAETHAU 2017-2018

1. **Safonau** - I sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.
2. **Cwricwlwm ac asesu** - I sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.
3. **Arweinyddiaeth** - I sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
4. **Lles** - Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.
5. **Addysgu** - I sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.
6. **Busnes** - I sicrhau bod gan GwE lywodraethu cadarn a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.
7. **Argymhellion Estyn** - I sicrhau bod cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud yn erbyn pob argymhelliad o fewn yr amserlen ddisgwyliedig